**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC 19-00(p10)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **13 Rhagfyr 2000** |
| **Amser** | **2.00 – 5.30 PM** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol** |

**Teitl: mapiau o ardaloedd sy’n gymwys I GAEL CYMORTH O’R cronfeydd strwythurol A’R rhaglen menter Gymunedol, a gwYbodaeth amDANYNT**

**Diben**

1. Cydymffurfio â chais y Pwyllgor am fapiau a gwybodaeth yngln â’r ardaloedd yng Nghymru sy’n gymwys i gael cymorth o’r Cronfeydd Strwythurol a’r Rhaglen Menter Gymunedol (CIP)

**Argymhelliad**

1. Gofynnir i’r Aelodau nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**Cefndir**

1. Cyflwynir y papur hwn fel ymateb i eitem 7 o gofnodion cyfarfod 18 Hydref.

**Rhaglen Amcan 1 ar gyfer Gorllewin Cymru a’r Cymoedd: Map Atodiad A**

1. Anelir Rhaglen Amcan 1 at yr ardaloedd o’r Undeb Ewropeaidd sydd ar ei hôl hi o ran datblygu ac sydd â Chynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) sy’n llai na 75% o gyfartaledd yr UE.

1. Mae ardal Amcan 1 yn cynnwys Cymoedd De Cymru, hen siroedd Dyfed a Gwynedd, Ynys Môn a rhannau helaeth o Ogledd Ddwyrain Cymru ac eithrio Sir y Fflint a Wrecsam. Bydd bron i £1.2 biliwn o arian Ewropeaidd Amcan 1 ar gael i Orllewin Cymru a’r Cymoedd dros y saith mlynedd nesaf.

**Amcan 2 a Throsiannol: Map Atodiad A**

1. Bydd Amcan 2 yn helpu i weddnewid, yn economaidd a chymdeithasol, ardaloedd sy’n wynebu anawsterau strwythurol. Yng Nghymru, mae’r pwyslais ar ardaloedd gwledig sy’n dirywio ac ardaloedd trefol mewn anhawster. Mae’r prif Raglen yn cynnwys y rhan fwyaf o Bowys, rhannau o Gaerdydd a Chasnewydd, gydag arian Trosiannol ar gael i’r ardaloedd a arferai ddod o dan Raglen Amcan 5b Cymru Wledig a Rhaglen Amcan 2 De Cymru Diwydiannol (ISW) h.y. gweddill Powys, a rhannau o Wrecsam, Mynwy, Caerdydd, Casnewydd a Bro Morgannwg.

1. Mae arian y Rhaglen yn seiliedig ar ewro fesul y pen ac o ganlyniad cafodd Cymru ddyraniad o €81.39 miliwn ar gyfer y prif Raglen hyd at ddiwedd 2006, a €39.73 miliwn ar gyfer ardaloedd Trosiannol hyd at ddiwedd 2005 (ar raddfa gyfnewid Gorffennaf sef 0.63, £51.28 miliwn a £25.03 miliwn, yn y drefn honno.

   Yn seiliedig ar ffigurau poblogaeth, caiff yr ardaloedd gwledig tua 40% o’r prif Raglen a 30% o’r Trosiannol a chaiff yr ardaloedd trefol tua 60% a 70%.

**Rhaglen Weithredol Amcan 3 Dwyrain Cymru Map Atodiad A**

1. Nod strategol Rhaglen Amcan 3 yw cefnogi twf economaidd yn Nwyrain Cymru trwy gyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy economi sy’n gystadleuol ac sy’n seiliedig ar wybodaeth, gyda marchnad waith effeithiol a hyblyg, lle mae gan bobl yr un cyfle i gael addysg a chyflogaeth, a chyfleoedd i wireddu’u potensial. Mae ardal Amcan 3 Dwyrain Cymru yn cynnwys y 7 awdurdod unedol: Caerdydd, Casnewydd, Bro Morgannwg, Sir Fynwy, Powys, Wrecsam a Sir y Fflint. Daw gweddill Cymru o dan y Rhaglen Amcan 1 newydd ar gyfer Gorllewin Cymru a’r Cymoedd.-{}-

1. Bydd tua €129.2 miliwn (£81.4 miliwn) ar gael ar gyfer Rhaglen Amcan 3 dros gyfnod o 7 mlynedd (2000-2006). Cymeradwyodd y Comisiwn Ewropeaidd y Rhaglen yn ffurfiol ar 17 Gorffennaf 2000. Cafwyd y cymeradwyaethau cyntaf o dan y Rhaglen ym mis Hydref.

**INTERREG III A: Map Atodiad B**

1. Mae hon yn Rhaglen ar y cyd rhwng Iwerddon a Chymru, sy’n hyrwyddo cydweithredu trawsffiniol a rhyng-ranbarthol rhwng Iwerddon a Chymru yn ogystal â helpu i oresgyn problemau datblygu arbennig sy’n codi o ynysiad cymharol y ddwy wlad oddi mewn i’r UE. Bydd yn defnyddio Cronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd (ERDF) gwerth €47.6m (£30 miliwn) ar gyfer Cymru/Iwerddon. Bwriedir i Raglen INTERREG III gynnwys Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd, Sir Ddinbych a Sir Conwy yn ogystal ag ardaloedd rhanbarthol Dulyn, Canolbarth Dwyrain a De Ddwyrain Iwerddon.

**INTERREG III B Ardal yr Iwerydd: Map Atodiad B**

1. Mae gan y DU fuddiant mewn 6 o'r 13 Rhaglen IIIB ac mae Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR) yn arwain y gad. Mae Ardal yr Iwerydd yn CIP trawsgenedlaethol a luniwyd i hyrwyddo cydweithredu wrth gynllunio'n ofodol o fewn cyd-destun y Persbectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd. Mae'r Rhaglen neilltuol hon yn cynnwys Rhanbarthau Iwerydd Sbaen, Ffrainc, Iwerddon a Phortiwgal i gyd, Cymru i gyd, Cymbria, Swydd Gaerhirfryn, Canol Manceinion, Sir Gaerlleon, Glannau Merswy, Swydd Gaerwrangon a Swydd Warwig, Avon Swydd Gaerloyw a Wiltshire, Dorset a Gwlad yr Haf, Dyfnaint a Chernyw, Swydd Stafford, Swydd Henffordd, Swydd Amwythig, Gorllewin Canolbarth Lloegr yn ogystal â Gogledd Iwerddon, Ucheldiroedd ac Ynysoedd a De Orllewin yr Alban. Ymhlith y gweithgareddau sy'n gymwys i'w hariannu y mae cyfnewid profiad, astudiaethau dichonoldeb, prosiectau peilot, gwaith ymchwil a rhwydweithio. Cyfanswm y dyraniad dynodol ar gyfer y Rhaglen hon yw €80 miliwn (£50.4 miliwn) o arian ERDF.

**INTERREG III B Gogledd Orllewin Ewrop: Map Atodiad B**

1. Er bod gan y Rhaglen hon nodau tebyg i Raglen Ardal yr Iwerydd mae'n cynnwys gwledydd gwahanol, sef Gwlad Belg, yr Almaen, Iwerddon, Lwcsembwrg, y cyfan o Deyrnas Unedig Prydain a Gogledd Iwerddon yn ogystal â'r Swistir. Cyfanswm y dyraniad dynodol ar gyfer y Rhaglen hon yw €300 miliwn (£189 miliwn) o arian ERDF.

**INTERREG III C: Map Atodiad B**

1. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnig y dylai INTERREG III C ddarparu gwerth ychwanegol at Gronfeydd Strwythurol prif ffrwd a CIP trwy weithredu fel fframwaith cyffredinol ar gyfer cydweithrediad rhyng-ranbarthol gyda'r nod o gysylltu a hybu cyfnewid profiad ac arferion da o ymyriadau ERDF mewn ardaloedd Amcan 1 a 2, y Rhaglenni Menter Gymunedol INTERREG ac URBAN a Rhaglenni Gweithredu Arloesol Rhanbarthol y dyfodol. Mae holl diriogaeth yr Undeb Ewropeaidd yn gymwys o dan y Rhaglen hon. Ni phennwyd y dyraniadau o dan y cynllun hwn yn derfynol eto.

**Leader+: Map Atodiad C**

1. Mae LEADER+ yn ariannu dulliau datblygu gwledig arloesol. Dyrannwyd €14.7 miliwn i Gymru (tua £9.3 miliwn) ar gyfer y cyfnod 2000-2006 o Gronfa Gwariant ac Arweiniad Amaethyddol Ewrop (EAGGF). Cyflwynir y Rhaglen trwy gyfrwng Grwpiau Gweithredu Lleol, a ddetholir ar sail cystadleuaeth. Roedd wyth grp o'r fath o dan LEADER II dros y cyfnod 1994-1999.

Dengys Canllawiau’r Comisiwn bod yn rhaid i Grwpiau Gweithredu Lleol fod ar gyfer poblogaeth o rhwng 10,000 a 100,000 o breswylwyr. Nodir trwch poblogaeth o 120 o breswylwyr fesul cilomedr sgwâr. Mae naw awdurdod lleol yng Nghymru yn gymwys o ran y meini prawf trwch poblogaeth. Fodd bynnag, ceir ardaloedd gwledig y tu allan i’r naw sir hyn, sydd hefyd bodloni’r meini prawf, er bod ffigurau ar lefel sirol wedi’u camliwio gan ardaloedd trefol. Mae’n anodd cael ffigurau dibynadwy islaw lefel sirol, ac felly defnyddiwyd ffigurau o Gyfrifiad Poblogaeth 1991 er mwyn nodi ardaloedd gwledig mewn siroedd trefol a allai fod yn gymwys. Mae’n anodd iawn diffinio’r ardal gymwys, ac felly fe’i dangosir gan y map amgaeedig. Bydd Grwpiau Gweithredu Lleol yn cael eu dethol yn ystod Gwanwyn a Haf 2001 yn seiliedig ar ansawdd eu Strategaethau Datblygu.

**URBAN II**

1. Nod y Rhaglen hon yw adfywio’n economaidd ac yn gymdeithasol ddinasoedd a chymunedau penodedig sydd mewn argyfwng, a hynny mewn modd cynaliadwy. Bydd naw ward yng Ngorllewin Wrecsam yn elwa o’r Rhaglen yng Nghymru. Tua €10 miliwn (£6.6 miliwn) fydd y dyraniad ERDF ar gyfer y Rhaglen hon.

**EQUAL**

1. Mae’r Fenter Gymunedol newydd EQUAL yn Rhaglen Brydeinig a’i nod yw ymladd pob math ar wahaniaethu mewn perthynas â’r farchnad lafur. Cytunwyd y bydd gan Gymru ei chynllun rhoi ar waith ei hun a gefnogir trwy ddyrannu adnoddau a glustnodwyd. Mae’r dyraniad Prydeinig o €365 miliwn ar gyfer y cyfnod 2000-2006 yn cyfateb i tua £226 miliwn.